



Gorffennol Digidol Digital Past - 2021

GWIRIONEDD, MOESG A THECHNEGAW MYNEGIANNOL:

Gwneud fideos digidol i gofnodi a dehongli archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol

Sarah Colley, Cymrawd er Anrhydedd, Archaeoleg, [Prifysgol Caerlŷr](#)

Fel y trafodais yn fy mhapur yng nghynhadledd Gorffennol Digidol 2020, gall syniadau sy'n deillio o theori ffilm ddogfennol fod o gymorth i ddeall nodweddion moesegol a nodweddion eraill dehongliadau treftadaeth a gyflwynir mewn fformatau clyweled (e.e. profiadau realiti rhithwir a fideos digidol). Gan ymhelaethu ar y thema hon, byddaf yn manteisio ar fy mhrofiadau ymarferol fel archaeolegydd proffesiynol a chynhyrchydd fideos digidol i ystyried syniadau am wirionedd, cynrychioli, moeseg, a rôl technegau mynegiannol wrth wneud fideos ar-lein am archaeoleg a threftadaeth at ddibenion ymchwil, addysg, ac estyn-allan cyhoeddus.

Mae technolegau ffotograffiaeth a fideograffeg ddigidol yn galluogi ymarferwyr treftadaeth ddiwylliannol i gipio a dehongli gwybodaeth weledol fanwl am leoedd a gwrthrychau i gynorthwyo eu gwaith. Mewn rhai achosion ystyrir bod y wybodaeth weledol hon yn 'ddata gwrthrychol' y gellir eu dadansoddi i ateb cwestiynau ymchwil wedi'u diffinio'n dda neu i reoli problemau ymarferol ym maes diogelu treftadaeth. Mae gwybodaeth weledol sy'n cael ei 'chipio' gan dechnolegau digidol yn ddeongliadol hefyd, a gellir ei thrawsffurfio ymhellach drwy ei golygu a'i rendro er mwyn cyflwyno dadleuon ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd at wahanol ddibenion. Mae hyn yn dod yn arbennig o amlwg wrth ddefnyddio technolegau fideo digidol sy'n gofyn am wneud penderfyniadau am sain a symudiad yn ogystal â'r elfennau gweledol sy'n gyffredin i ffotograffiaeth lonydd. Bydd y mwyafrif o ymarferwyr treftadaeth yn tynnu ffotograffau llonydd ar gyfer eu gwaith. Mae cynhyrchu fideos wedi'u golygu gyda sain yn cynnig posibilïadau, heriau a chyfrifoldebau

ychwanegol i archaeolegwyr ac ymarferwyr treftadaeth – gan gynnwys rhai'n ymwneud â chynrychioli a moeseg. Byddaf yn defnyddio astudiaethau achos o'm gwaith fy hun wrth drafod rhai o'r materion hyn – y mae ganddynt gymhwysedd ehangach o ran deall a gwerthfawrogi ystyron a gwerthoedd treftadaeth a gofnodir ac a gyfleir drwy dechnoleg ddigidol.

Bywgraffiad

Mae gan Sarah Colley brofiad helaeth fel archaeolegydd proffesiynol ac ymarferwr treftadaeth, ac mae hi wedi gweithio ar nifer o brosiectau digidol. Mae hi wedi cyhoeddi ym meysydd archaeoleg gyhoeddus, moeseg a threftadaeth ddigidol. Bydd hi hefyd yn gwneud fideos digidol am archaeoleg a threftadaeth.